CYNGOR CYMUNED
LLANBADRIG
COMMUNITY COUNCIL

Mae gan y Cyngor Cymuned bryderon ynglyn a'r cynllun rheoli traffig sydd wedi cael ei chrynhoi ynghyd a'r cais cynllunio yma oherwydd honir i hyn gael effaith fawr ar drigolion Cemaes a Tregele. Mae sylwadau / gwrthwynebiadau wedi cael ei rhoi ymlaen i'r Adran Cynllunio Gyngor Sir Ynys Môn gan y Cyngor Cymuned.

Os am ddefnyddio Ffordd y Felin yn dilyn o'r A5025 mae yna o ddeuty 84 eiddo ar y ffordd yma yn cynnwys Fferm, Ysgol Gynradd, Maes Carafanau a stadiwm Pel Droed sydd I gyd â mynediad oddiar Ffordd y Felin. Mae'r cyfnod adeiladu yn mynd I gymeryd 12 mis ac yn ystod y 4 mis cyntaf fydd hyn yn golygu swm uchel o draffig ddwy waith y dydd. Wrth gynnwys wythnos gwaith yn 5.5 diwrnod mae hyn yn arwain I 154 o gerbydau trwm yn trafeilio'r ar hyd Ffordd y Felin pob wythnos heb son am bwsiau yn cludo'r contractwyr fe gaiff hyn effaith fawr ar drigolion a busnesau lleol.

Mae Adran 6.29-6.31yn datgan bod y cwmni am roi rhifau ffôn er mwyn I drigolion a busnesau allu cysylltu a swyddogion petaent angen cael mynediad I'r ffordd, ond nid yn unig trigolion lleol sydd yn defnyddio'r ffordd yma. Er engraifft mae meddygfa yng Nghemaes sydd yn golygu bod pobl o Lanfechell, Mynydd Mechell, Tregele, Carreglefn a phellach yn defnyddio'r ffordd yma I fewn I Gemaes, mewn gwirionedd, nid yw'r syniad yma yn un ymarferol nag effeithiol.

Mae'r Cyngor Cymuned yn rhagweld y byddai problemau os maen't yn dewis mynd drwy pentref Tregele. Mae gorsaf betrol a siop yn y pentref ar ochr yr A5025 sydd yn gallu bod yn brysur iawn gyda pobl yn teithio yno o fewn tua 6 i 7 milltir radiws ac ar adegau mae hi ddigon peryg dod i'r lon A5025 heb son am gael cymaint o traffig ychwanegol. Mae Tregele yn bentref eithaf bychan gyda 81 eiddo yn cynnwys dwy fferm a maes carafanau ond yn ffordd o safon is nag Ffordd y Felin oherwydd nid oes llwybrau cerdded er bod llawer o gerddwyr a beicwyr yn defnyddio'r ffordd yn ddyddiol. Mae tri congl ddrwg ar y ffordd o Tregele I Congl Felys, sef yn y sgwar, Ty'n Llain sef yr hen iard lô ac Foel Fawr. Nid yw pentref bach Tregele yn addas I gymeryd 154 o gerbydau trwn 16.5 medr o hyd yn trafeilio drwy'r pentref yn wythnosol yn ogystal a cherbydau'r gweithwyr ar y safle, traffig o Orsaf y Wylfa am 8 y bore a 4.30 y prynhawn.

Sylawadau y Cyngor Cymuned fasau defnyddio Ffordd Rhyd y Corffa heibio Fferm Nant y Fran ac at Tai Hen.

Os ydych angen mwy o wybodath am y cais fe allwch gysylltu â'r Adran Cynllunio, Cyngor Sir Ynys Môn

Cyngor Cymuned Llanbadrig Community Council,
Canolfan Treftadaeth Cemaes, 36 Stryd Fawr, Cemaes, Ynys Mon LL670HL
e-bost / e-mail: llanbadrig@live.co.uk

Cyngor Cymuned Llanbadrig Community Council,
Canolfan Treftadaeth Cemaes, 36 Stryd Fawr, Cemaes, Ynys Mon LL670HL
e-bost / e-mail: llanbadrig@live.co.uk